Cynrychioli anghenion unigolion i eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr datblygu gyrfa.

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynrychioli anghenion unigolion i eraill trwy eiriolaeth, cyd-drafod a chyfryngu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
gweithio gydag unigolion i gasglu gwybodaeth ddigonol i gynrychioli eu buddiannau
2.
sicrhau bod gan unigolion ddisgwyliadau realistig o ran canlyniadau cynrychiolaeth ar eu rhan
3.
cydnabod y gwahaniaethau rhwng eiriolaeth, cyd-drafod a chyfryngu a phryd gellid defnyddio pob un ohonynt
4.
adnabod gwybodaeth anghyson ynghylch unigolion a datrys hynny gyda nhw
5.
defnyddio gwasanaethau allanol i gynrychioli unigolion pan fo hynny er eu lles pennaf
6.
cytuno ar gynlluniau realistig wrth gefn gydag unigolion
7.
cyflwyno buddiannau unigolion yn glir ac yn effeithiol i eraill
8.
cyd-drafod oddi mewn i'r terfynau y cytunwyd arnynt gydag unigolion
9.
cynnig awgrymiadau adeiladol ar gyfer datrys materion
10.
ymgynghori ag unigolion ar adegau addas, i sicrhau bod cytundebau'n ymateb i'w gofynion
11.
cofnodi cytundebau gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol
12.
effeithiolrwydd gweithgareddau cynrychioli a chynllunio gwelliannau yn ôl y galw
13.
gweithredu mewn ffyrdd sy'n glynu at yr ymarfer moesegol sy'n ofynnol o fewn eich sefydliad neu eich proffesiwn
14.
herio unrhyw ragfarn, defnydd o stereoteipiau, camwahaniaethu ac ymddygiad

anfoesegol neu ormesol

15. annog ymreolaeth unigolion oddi mewn i'r broses datblygu gyrfa

16. hyrwyddo cynhwysedd, amrywiaeth a chyfle cyfartal

17. cynnal cyfrinachedd a diogeledd gwybodaeth unigol sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r polisïau sefydliadol perthnasol

18. arddangos dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol, gweithdrefnau lleol a'ch atebolrwydd eich hun o ran diogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal
2.
egwyddorion cyd-drafod, eiriolath a chyfryngu, a phryd gellid defnyddio pob un ohonynt
3.
sut mae asesu effeithiolrwydd gweithgareddau cynrychioli
4.
manteision ac anfanteision ymgysylltu â gwasanaethau allanol i gynrychioli buddiannau unigolion
5.
sut mae asesu lefel y gynrychiolaeth sy'n ofynnol i ymateb orau i fuddiannau unigolion
6.
yr ystod o sgiliau, technegau a strategaethau a ddefnyddir wrth gynrychioli unigolion
7.
yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynrychioli unigolion
8.
sut mae adnabod gwybodaeth anghyson sy'n ymwneud ag unigolion
9.
sut mae adnabod a chyflwyno agweddau allweddol ar ofynion unigolion
10.
sut cytunir ar benderfyniadau a'r systemau ar gyfer eu cofnodi
11.
sut mae dadansoddi a myfyrio ar weithgareddau cynrychioli, gan ddefnyddio adborth unigolion a'r canlyniadau a gofnodwyd
12.
egwyddorion moesegol a chodau ymarfer moesegol proffesiynol perthnasol, a chanlyniadau peidio â chadw atynt
13.
sut mae annog unigolion i gymryd perchnogaeth ar y broses datblygu gyrfa

14.

ffiniau a therfynau eich arbenigedd proffesiynol eich hun

15.

ffiniau cyfrinachedd, pryd mae'n briodol datgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill a'r prosesau sy'n ofynnol

16.

mesurau i ddiogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

Cynrychioli anghenion unigolion i eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CDI |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 03 Tach 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2016 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CDI |
| **RCU gwreiddiol** | CDICRD13 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Galwedigaethau Proffesiynol, Rheolwyr ac arweinwyr sydd â chyfrifoldeb am rhyngasiantaethol, gweithwyr llinell gymorth, Ymgynghorwyr Gyrfaoedd ac Arbenigwyr Cyfarwyddyd Galwedigaethol, Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Hyfforddwr Tywys Gweithredol, Rheolwyr Swyddogaethol, Staff Adnoddau Dynol, Mentor Dysgu, Rheolwyr personel, Hyffordiant a chysylltiadau diwydiannol, Gweithwyr Ymchwil Proffesiynol, Addysgwyr Proffesiynol |
| **Cyfres/Set** | Datblygu Gyrfa |
| **Geiriau Allweddol** | cyngor, dyhead, gyrfa, client-ganolog, datblygiad, addysg, cyflogaeth, cydraddoldeb, moesegol, nodau, grŵp, unigolyn, gwybodaeth, marchnad lafur, dysgu, symbyliad, anghenion, rhwydweithio, amcan, partneriaeth, cynllunio, ymarfer, atgyfeirio, myfyrio |